# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Sara Jones**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd
yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 15 Ionawr 2026 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Mair O Pierce
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd Dafydd Roberts

**Cynghorydd Sir**
Cyng. Beca Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mary Hayes
**Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. David Roberts, Iwan Hywel.

2. **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol:** Y Clerc i gywiro y rhestr presenoldeb i ychwanegu Y Cyng. Mair O Pierce. Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 o Tachwedd 2025.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion:**
   - **3.2 Mynedfa Lôn Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – Dal heb dderbyn ymateb; mae'r Clerc wedi gwneud ymholiad pellach.
   - **3.3 Pecyn Budd Cymunedol Zip World** – Mae'r Clerc wedi ail-anfon llythyr, ond nid oes ymateb wedi'i dderbyn hyd yma.
   - **3.4 Ffordd Tanrhiw / Bro Sir Ifor** – Mae asesiad wedi'i gwblhau; mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan Gyngor Gwynedd.
   - **3.5 Parcio ar Lôn Dinas (ger yr A5)** – Mae'r asesiad wedi'i gwblhau; mae'r Clerc yn disgwyl ymateb.
   - **3.6 Parc y Bwlch, Mynydd Llandygai** – Mae'r Clerc wedi gofyn am gadarnhad ynglŷn â'r pren a sut y gellid trefnu i'r gymuned ei dderbyn.
   - **3.8 Defnydd o chwynladdwyr, Braichtalog** – Mae'r Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am eu safbwynt.

**4. Gohebiaeth**
Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2026'
**4.1 – Ebost gan Debra Spencer –** Sbwriel sy'n cael ei adael gan y loriau sbwriel. Y Clerc i ofyn i Partneriaeth Ogwen am help I gael mwy o oriau gan Barry (Swyddog Cynnal). Y Clerc i yrru ebost I Cyngor Gwynedd I ofyn os maen't yn gallu helpu efo'r problem sbwriel.

**4.2 – Llwybr Llechi Eryri** – Ebost gan Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri – Y Cyngor yn hapus I yrru llythyr cefnogaeth – Y Clerc i'w yrru.
**4.3 – Yr Ocar –** Ebost gan Cyngor Gwynedd efo canlyniadau cyflymder Yr Ocar – Y Clerc i yrru y ebost ymlaen I Luke Tyler.
**4.4 – Ebost gan y Cyng. Beca Roberts –** Y Cyngor yn cytuno i cefnogi y llythyr
**4.5 – Cyngor Cymuned Llanllechid –** Y Cyngor yn hapus i rhai aelodau or cyngor cael cyfarfod efo Cyngor Cymuned Bethesda ac Llandygai efo Zip World.

**5. Ymgeisydd am Sedd Wag y Cyngor**
- Y Cyngor yn hapus i cyd-ethol John Jones i'r sedd wag. Y Clerc i anfon ebost yn deud ei fod wedi bod yn llwyddiannus i'r swydd, ac i'w wahodd i cyfarfod mis Chwefror. Y Clerc i yrru ebost arall i'r ymgeisyddion arall i'w atgoffa i yrru gwybodaeth ychwanegol.

**6. Archeb 2026-27**
- Yn dilyn archwilio'r gyllideb a'r gwariant yn y flwyddyn bresennol, penderfynwyd ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £39,760.

**7. Rhoddion**
- I'w drafod yn cyfarfod mis Chwefror.

**8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinydd**
- I'w adolygu bob chwarter blwyddyn.

**9. Gwaith y Mis**
- Y Clerc i anfon ebost i atgoffa symud bin halen Allt Ocar i Stad Cae Gors.
- Y Clerc i anfon ebost i ofyn am fwy o halen i'r bin sydd yn Canolfan Tregarth.

**10. Adroddiad Cynrychiolwyr**
- Cyfarfod llywodraethwyr Tregarth, llawer o ganmol i'r gweithgareddau Nadolig.

**11. Taliadau**
Y Cyngor yn derbyn y taliadau mis yma.

**11. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0004/16/LL** | Land at Maes Talog, Tregarth<br>Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**C24/0219/16/LL**

Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai
Cael gwared ar ardal ymarfer bresennol [0.02 ha] ac adeiladu ardal ymarfer newydd wedi'i gwella a'i chynyddu [0.03 Ha]
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0258/16/DT**

19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai
Gosod Pwmp gwres ffynhonnell aer ar flaen yr annedd
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0711/16/LL**

Tanysgafell Isaf, Coed y Parc
Adeiladu trac mynediad graean 3m o led newydd i'r safle er mwyn caniatáu mynediad i'r adeiladau a'r safle
**Penderfyniad:** Gwrthodwyd.

**C24/0787/16/DT**

1 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,
Estyniad unllawr ochr a newidiadau mewnol i annedd presennol
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**12. Ceisiadau Cynllunio**

**C24/0801/16/CC**

Pont Sarnau, Bethesda
Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad:** Dim sylw.

**C24/0847/16/DT**

4, Fron Ogwen, Tregarth
Adeiladu ystafell ardd yng nghefn y tŷ yn cynnwys ystafell ymolchi a chegin fach i'w defnyddio fel rhan atodol i'r tŷ annedd
**Penderfyniad:** Argymell gwrthod y cais, oherwydd mae tŷ gwyliau yw defnydd yr annedd ar hyn o bryd, felly nid 'ystafell ardd' fydd hwn, ond estyniad i'r tŷ gwyliau. Cymdogion lleol wedi cysylltu â'r Cyngor i godi eu pryderon ynglyn â problemau parcio a 'overlooking' i dai a gerddi cyfagos.

**C24/0878/16/HY**

Uned 7, Parc Bryn Cegin, , Llandygai
Gosod arwyddion wedi'u goleuo a heb eu goleuo
**Penderfyniad:** Cefnogi

**C24/0982/16/LL**

Tanysgafell Isaf Tanysgafell, Coed Y Parc
Adeiladu trac mynediad graean 3m o led newydd i'r safle er mwyn caniatáu mynediad i'r adeiladau a'r safle
**Penderfyniad:** Argymell gwrthod, cyflwyno'r un sylwadau ag o'r blaen

**13. Unrhyw fater brys arall**
**- Dim.**

**14. Crynodeb Llais Ogwan**
- Rydym yn ymestyn yr dyddiad cau ar gyfer rhoddion erbyn diwedd Chwefror.